

Yr Adran Cymunedau

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid



Arweiniad i'r hyn y mae angen ichi ei wybod

Ffeithlen 15

(Mawrth 2017)

Y Cefndir

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith cyfreithiol i asesu a oes gan berson alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau neilltuol drostynt eu hunain. Mae hefyd yn diffinio sut y gall eraill wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb alluedd meddyliol. Rhaid gwneud y penderfyniadau hyn er lles pennaf y sawl sydd heb alluedd.

Cafodd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu mewnosod yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 drwy welliant i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu amddiffyniad cyfreithiol i bobl sydd heb y galluedd i gydsynio i ofal a/neu driniaeth mewn un ai ysbyty neu gartref nyrsio/gofal ond y mae angen gofal neu driniaeth o'r fath arnynt er eu lles pennaf nhw ac i'w hamddiffyn rhag niwed. Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu set o wiriadau gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw ofal sy'n cyfyngu ar ryddid person yn briodol a hefyd er ei les pennaf. Mae'r daflen hon yn egluro pwy sy'n cael ei gynnwys o fewn y trefniadau diogelu, beth yw ystyr 'colli rhyddid', a sut mae mynd ati i gael awdurdodiad i amddifadu rhywun o'i ryddid ac i adolygu'r trefniadau hynny.

Pwy sy'n cael ei gynnwys o fewn y Trefniadau Diogelu?

Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn berthnasol i bobl yng Nghymru a Lloegr sydd ag anhwylder meddyliol (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Iechyd Meddwl 2007) nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i'r trefniadau a wneir ar gyfer eu gofal a'u triniaeth, lle mae darparu gofal a thriniaeth iddynt o dan amgylchiadau sy'n golygu colli rhyddid yn angenrheidiol i'w hamddiffyn rhag niwed ac mai dyna'r opsiwn a fydd yn cyfyngu leiaf arnynt a'i fod er eu lles pennaf. Er enghraifft, gall pobl ag anabledau dysgu, dementia a chyflyrau niwrolegol fod yn ddarostyngedig i'r trefniadau diogelu.



Dim ond i bobl 18 oed neu hŷn mewn sefydliadau preswyl, nyrsio ac ysbyty y mae'r trefniadau diogelu hyn yn berthnasol. Dylid ystyried Deddf Plant 1989, Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu gais i'r Llys Gwarchod os oes materion yn ymwneud â cholli rhyddid yn codi yng nghyswllt pobl o dan 18 oed.

Dim ond drwy gais i'r Llys Gwarchod y gellir awdurdodi Colli Rhyddid mewn lleoliad domestig, e.e. cartref y person, bywydau a rennir neu fyw gyda chymorth, ac mae hyn yn berthnasol i sefyllfaoedd lle mae'r wladwriaeth yn chwarae rhan.

Beth yw Colli Rhyddid?

O dan Erthygl 5 o'r Ddeddf Hawliau Dynol dywedir bod gan bawb **yr hawl i ryddid a diogelwch fel unigolyn. Ni chaniateir amddifadu unrhyw un o'i ryddid oni bai fod hynny'n unol â gweithdrefn sydd wedi'i rhagnodi mewn cyfraith.** Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yw'r weithdrefn a ragnodir mewn cyfraith pan fydd rhaid amddifadu preswilydd neu glaf o'i ryddid am nad oes ganddo/ganddi y galluedd i gydsynio i ofal a thriniaeth i'w gadw/chadw'n ddiogel rhag niwed.

Ym mis Mawrth 2014 cafwyd eglurhad mewn dyfarniad gan y Goruchaf Lys ar yr hyn a olygir gan Golli Rhyddid. Cyfeiriodd y Llys at y '**prawf eithaf**' i ganfod a yw person yn colli'i ryddid at ddibenion Erthygl 5 o'r Ddeddf Hawliau Dynol pan fydd y person:

- **O dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus; ac**
- **Nad yw'n rhydd i adael; ac**
- **Nad yw'r galluedd ganddo i gydsynio i'r trefniadau hyn.**

Barnodd y Llys fod y ffactorau **nad** ydynt yn berthnasol wrth benderfynu a yw person yn colli'i ryddid yn cynnwys:

- Bod y person yn cydymffurfio neu nad yw'n gwrthwynebu
- Y rheswm neu'r bwriad wrth wraidd lleoliad penodol; ac
- I ba raddau y mae'n galluogi'r person i fyw bywyd cymharol normal i rywun sydd â'r lefel honno o anabledd.

Mae'r '**prawf eithaf**' yn llawer ehangach na'r hyn a bennwyd mewn dyfarniadau blaenorol – ni ddylai pobl anabl wynebu safon lymach o ran colli rhyddid na phobl nad ydynt yn anabl.

Os yw rhywun yn ddarostyngedig i'r lefel o oruchwyliaeth neu reolaeth a amlinellir uchod ac nad yw'n rhydd i adael, mae'n debygol ei fod yn colli'i ryddid. Ond hyd yn oed gyda'r '**prawf eithaf**', mae'n gallu bod yn anodd bod yn sicr pryd mae

defnyddio cyfyngiadau ac ataliaeth i gefnogi unigolyn yn croesi'r llinell fel bod y person yn colli'i ryddid. Rhaid ystyried pob cais ar ei haeddiant. Byddai'r isod yn dangos bod angen ystyried o ddifrif a ddylid gwneud cais colli rhyddid:

- Defnyddio meddyginiaeth i reoli ymddygiad.
- Ataliaeth gorfforol i reoli ymddygiad.
- Gwrthwynebiad llafar/corfforol gan y person dan sylw i gyfyngiad neu ataliaeth.
- Bod y person yn gwrthwynebu'i leoliad mewn Cartref Preswyl/Nyrsio.
- Teulu neu ffrindiau'n gwrthwynebu'r cyfyngiadau neu'r ataliaeth a roddir ar berson.
- Bod y person wedi'i gyfyngu i ran o'r sefydliad lle mae'n cael gofal.

Y broses o wneud cais Colli Rhyddid a'i awdurdodi

Mae gan Gartrefi Preswyl a Nyrsio gyfrifoldebau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i sicrhau nad oes unrhyw un o'u preswylwyr yn colli'i ryddid yn anghyfreithlon; hynny yw heb awdurdodiad priodol. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin rôl fel **Corff Goruchwyllo** ac mae'n gyfrifol am awdurdodi o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Gelwir y Cartref Preswyl neu Nyrsio lle gallai person fod mewn sefyllfa o golli'i ryddid yn **Awdurdod Rheoli. Nodwch fod cleifion ysbyty a allai golli'u rhyddid neu sydd wedi colli'u rhyddid yn dod o dan Fwrdd Prifysgol Hywel Dda sy'n gweithredu fel y Corff Goruchwyllo.**

Rhaid i'r Cartref Preswyl neu Nyrsio y cyfeirir ato ar ôl hyn fel yr **Awdurdod Rheoli** allu adnabod pryd mae preswyllydd yn colli'i ryddid. Dylai'r **Awdurdod Rheoli** ystyried a yw'r person heb y galluedd i benderfynu a ddylai fod yn y Cartref Preswyl neu Nyrsio ai peidio.

Dylai'r **Awdurdod Rheoli** ystyried y canlynol:

- Ydy'r person yn gallu **deall** y penderfyniad sydd i gael ei wneud, a pham mae angen ei wneud?
- Ydy'r person yn gallu **dal gafael** ar y wybodaeth yn ddigon hir i ystyried yr opsiynau?
- Ydy'r person yn gallu **cloriannu'r** wybodaeth ac ystyried canlyniadau'r penderfyniad, yn cynnwys risg?
- Ydy'r person yn gallu **cyfleu'r** penderfyniad hwn (drwy unrhyw gyfrwng)?

Os nad yw'r person yn gallu cyflawni'r uchod, mae'n debygol nad yw'r galluedd ganddo i wneud y penderfyniad. Hefyd, rhaid i'r **Awdurdod Rheoli** allu adnabod

pryd mae person sydd heb alluedd yn colli'i ryddid ac yn bodloni'r '**prawf eithaf**' – ei fod o dan **oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus** ac **nad yw'n rhydd i adael**.

Ar ôl nodi bod person yn colli'i ryddid, dylai'r **Awdurdod Rheoli** lenwi'r ffurflen ragnodedig a'i chyflwyno i'r **Corff Goruchwyllo (Cyngor Sir Caerfyrddin)** gan ofyn am asesiad ar gyfer yr hyn a elwir yn Awdurdodiad Safonol. Gall yr **Awdurdod Rheoli** hefyd roi Awdurdodiad Brys iddo'i hun os na ellir osgoi colli rhyddid a bod angen i hynny gychwyn cyn mae modd cael yr Awdurdodiad Safonol. Rhaid i Awdurdodau Rheoli wneud cais am Awdurdodiad Safonol ar yr un pryd ag y maent yn llenwi rhan Awdurdodiad Brys y ffurflen. Ni chaiff yr Awdurdodiad Brys fod am fwy na 7 diwrnod oni bai fod y **Corff Goruchwyllo (Cyngor Sir Caerfyrddin)** yn cytuno i 7 diwrnod pellach.

Rhaid i'r **Awdurdod Rheoli** hysbysu'r preswlydd (y **Person Perthnasol**) a theulu, ffrindiau a/neu ofalwyr y Person Perthnasol ei fod yn gwneud cais am awdurdodiad **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**. Rhaid i'r **Awdurdod Rheoli** hefyd hysbysu'r **Corff Goruchwyllo (Cyngor Sir Caerfyrddin)** os yw'r preswlydd (**Person Perthnasol**) heb 'gyfaill gwirfoddol' ac yn bodloni'r meini prawf cymhwyso i gael Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) wedi'i benodi.

Pan ddaw cais am Awdurdodiad Safonol i law'r **Corff Goruchwyllo (Cyngor Sir Caerfyrddin)** bydd yn penodi **Asesydd Lles Pennaf** ac **Asesydd Meddygol** i wneud yr asesiad. Mae **chwe** rhan i'r broses asesu:

- **Asesiad oedran** – ydy'r person dros 18 oed?
- **Iechyd Meddwl**– oes gan y person anhwylder meddyliol?
- **Galluedd Meddyliol** –ydy'r person heb y galluedd meddyliol i benderfynu ynglŷn â'i drefniadau gofal?
- **Lles Pennaf** – ydy hwn yn achos o golli rhyddid? Os yw, ydy hynny:
 - er lles pennaf y person?
 - yn ofynnol i gadw'r person yn ddiogel rhag niwed?
 - yn ymateb rhesymol i'r tebygolrwydd y gallai'r person gael niwed (yn cynnwys opsiynau llai cyfyngol os ydynt yn fwy priodol).
- **Cymhwystra** - oes modd yn barod i'r person gael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu a fyddai'n bodloni'r gofynion cadw o dan y Ddeddf hon? Os yw, y Ddeddf Iechyd Meddwl ddylai fod ar waith nid y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

- **Dim Gwrthodiadau** – a fyddai'r awdurdodiad yn groes i neu'n gwrthdaro ag unrhyw benderfyniad a wnaed ymlaen llaw gan y person yn gwrthod triniaeth neu ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan, er enghraifft, Ddirprwy a benodwyd gan lys neu rhywun ag Atwrneiaeth Arhosol.

Os daw'r holl asesiadau i'r casgliad fod y **Person Perthnasol** yn bodloni'r gofynion ar gyfer awdurdodiad a bod yr holl asesiadau wedi cael eu pasio i'r **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** yna rhaid rhoi Awdurdodiad Safonol i'r **Awdurdod Rheoli**.

Rhaid i'r **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** bennu cyfnod yr awdurdodiad – ni chaiff fod yn hirach na'r cyfnod a argymhellwyd gan yr Asesydd Lles Pennaf ac ni chaiff fod am fwy na **12 mis**.

Ni chaiff y **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** roi awdurdodiad os na chyflawnwyd un o'r asesiadau a dylai'r broses asesu gael ei hatal ar unwaith.

Gall y **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** roi amodau ynghlwm wrth yr Awdurdodiad Safonol a rhaid iddo ystyried amodau a argymhellwyd gan yr Asesydd Lles Pennaf. Os pennir amodau dylid gweithredu arnynt.

Dylech nodi nad oes modd trosglwyddo Awdurdodiad Safonol i Gartref Preswyl neu Nyrsio arall a rhaid gwneud cais am Awdurdodiad Safonol newydd cyn i'r person gael ei symud.

Rôl Cynrychiolydd y Person Perthnasol

Os bydd y **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** yn caniatáu Awdurdodiad Safonol rhaid iddo benodi'r hyn sy'n cael ei alw'n **Gynrychiolydd Person Perthnasol** cyn gynted â phosibl i gynrychioli'r sawl sydd wedi colli'i ryddid.

Y rôl yw

- Cynnal cysylltiad â'r Person Perthnasol.
- Cynrychioli a chefnogi'r Person Perthnasol ym mhob mater yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, yn cynnwys sbarduno adolygiad os oes rhaid. Gall hyn gynnwys gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

Mae'r rôl hon yn dyngedfennol i'r broses colli rhyddid ac mae'n caniatáu i'r **Person Perthnasol** cael ei gynrychioli a'i gefnogi mewn ffordd sy'n annibynnol ar y darparwr gofal (**yr Awdurdod Rheoli**) a'r **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)**. Os nad oes gan y **Person Perthnasol** ffrind neu

aelod o'r teulu i gyflawni'r rôl hon, bydd y **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** yn penodi cynrychiolydd sy'n cael tâl.

Rôl yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA)

Os yw'r **Person Perthnasol** yn destun awdurdodiad Colli Rhyddid, mae'n ofynnol iddo gael cynrychiolydd penodedig. Yn niffyg aelod o'r teulu neu ffrind i ymgymryd â'r rôl hon, gellir cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol i lenwi'r bwlch tra chaiff rhywun addas ei benodi. Gellir cyfarwyddo Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol hefyd os yw'r Person Perthnasol neu'i gynrychiolydd yn gofyn am ei gymorth neu os yw'r **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** yn teimlo y byddai penodi un yn sicrhau bod hawliau'r **Person Perthnasol** yn cael eu gwarchod. Hefyd, gall yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol ymgymryd â rôl cynrychiolydd sy'n cael tâl yn niffyg **Cynrychiolydd Person Perthnasol** addas.

Adolygu'r Awdurdodiad Safonol

Mae adolygiad o Awdurdodiad Safonol yn broses ffurfiol i benderfynu a yw gofal sy'n amddifadu rhywun o'i ryddid yn dal yn angenrheidiol.

Os bydd y **Person Perthnasol, Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol** neu'r **Awdurdod Rheoli** yn gofyn am adolygiad, rhaid i'r **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** gynnal adolygiad.

Mae seiliau statudol i adolygiad, sef:

- Nad yw'r **Person Perthnasol** mwyach yn bodloni un neu ragor o'r chwe gofyniad asesu.
- Nad yw'r **Person Perthnasol** mwyach yn bodloni'r gofyniad cymhwyso gan ei fod yn gwrthwynebu cael triniaeth iechyd meddwl yn yr ysbyty a'i fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cais o dan Adran 2 neu 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Y bu newid yn sefyllfa'r **Person Perthnasol** a bod angen newid yr amodau sydd ynghlwm wrth yr awdurdodiad, felly mae angen adolygiad.
- Mae'r rhesymau pam fod y person yn bodloni'r gofynion cymhwyso nawr yn wahanol i'r rhesymau a roddwyd ar yr adeg y caniatwyd yr awdurdodiad.

Rhaid i'r **Corff Goruchwylio (Cyngor Sir Caerfyrddin)** ddweud wrth y **Person Perthnasol**, ei Gynrychiolydd a'r **Awdurdod Rheoli** os yw'n mynd i gynnal adolygiad.

Llys Gwarchod

Rydym yn deall y bydd y **Person Perthnasol** neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran yn anghytuno efallai mewn rhai achosion ag awdurdodiad Colli Rhyddid, neu'r amodau ynghlwm wrtho. Yn yr achosion hyn rydym yn awgrymu bod y **Person Perthnasol, Cynrychiolydd y Person Perthnasol**, ffrind, aelod o'r teulu yn siarad â Rheolwr y Cartref Gofal yn y lle cyntaf. Fel y crybwyllwyd yn barod, gellir adolygu'r awdurdodiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid os gwneir cais am hynny. Pe baech yn credu bod canlyniad yr adolygiad yn anfoddhaol, gellir gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

Mae manylion cyswllt y Llys Gwarchod i'w gweld ar ddiwedd y daflen hon.

Beth sy'n digwydd pan fydd person yn marw tra mae'n destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid?

Os yw person yn marw tra mae'n destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, rhaid hysbysu'r Crwner. Mae'r Prif Grwner wedi penderfynu y caiff hyn ei ystyried yn "Farwolaeth yn y Ddalfa".

Rhaid i'r **Awdurdod Rheoli** hysbysu'r Crwner lleol o'r farwolaeth. Unwaith y bydd y Crwner wedi'i hysbysu bydd Swyddfa'r Crwner yn cysylltu â'r perthynas agosaf i egluro pam mae'r farwolaeth yn cael ei riportio, a'r camau a fydd yn dilyn. Nodwch fod y drefn o riportio marwolaeth i'r Crwner tra mae'r person yn destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, cofiwch gysylltu â'r Tîm Diogelu rhag Colli Rhyddid a fydd yn barod iawn i helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Y Tîm Diogelu rhag Colli Rhyddid, 5 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE

Ffôn: 01267 228950 E-bost: dols@sirgar.gov.uk Ffacs: 01267 228878

Sefydliadau Defnyddiol

Y Llys Gwarchod, Blwch SP 70185, First Avenue House, 42-49 High Holborn, Llundain, WC1A 9JA

Ffôn: 0300 456 4600 (dydd Llun i ddydd Gwener)

E-bost: courtofprotectionenquiries@hmcts.gsi.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/court-of-protection

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, Blwch SP 16185, Birmingham B2 2WH
Ffôn: 0300 456 0300 (Gwasanaethau Cwsmeriaid – dydd Llun i ddydd Gwener)
E-bost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk Gwefan: www.gov.uk/opg

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE)

Kinnaird House, 1 Pall Mall East, Llundain SW1Y 5BP
Ffôn: 020 7766 7400 Gwefan: www.scie.org.uk

Mae'r wefan hon yn cynnwys llawer o wybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

IMCA (*Independent Mental Capacity Advocacy Service*)

IMCA Cymru, Union Offices, Quarella Road, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1JW
Ffôn: 01656 649557 E-bost: imca@imcawales.org

